

Dadansoddi ar gyfer Polisi



Analysis for Policy



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

RHIF YMCHWIL CYMDEITHASOL:

69/2024

DYDDIAD CYHOEDDI:

14/10/2024

Adolygiad arbenigol annibynnol o fframwaith monitro'r Strategaeth Tlodi Plant

This document is also available in English

Mae'r ddogfen yma hefyd ar gael yn Saesneg

OGI © Hawlfraint y Goron Digidol ISBN 978-1-83625-679-3

Teitl: Adolygiad arbenigol annibynnol o fframwaith monitro'r
Strategaeth Tlodi Plant

Awdur: Yr Athro Rod Hick, Ysgol y Gwyddorau Cymdeithasol,
Prifysgol Caerdydd

Adroddiad Ymchwil Llawn: Hick, R. (2024). *Adolygiad arbenigol annibynnol o fframwaith monitro'r Strategaeth Tlodi Plant Caerdydd: Llywodraeth Cymru*, Adroddiad GSR Rhif 69/2024.>

Ar gael yn: <https://www.gov.wales/child-poverty-strategy-monitoring-framework-and-independent-expert-review>



Safbwyntiau'r ymchwilydd a fynegir yn yr adroddiad hwn ac nid o
reidrwydd rhai Llywodraeth Cymru

Am fwy o wybodaeth, cysylltwch â:

Enw: Launa Anderson

Is-Adran: Tystiolaeth a Chefnogaeth ar gyfer Cydraddoldeb, Tlodi a Phlant
Llywodraeth Cymru

Parc Cathays

Caerdydd

CF10 3NQ

Ffôn: 03000259274

Ebost: ymchwilcyfiawndercymdeithasol@llyw.cymru

Tabl cynnwys

1.	Cyflwyniad	2
2.	Cylch gwaith fy adolygiad a'r dull a gymerais	3
3.	Beth yw pwrpas y fframwaith? Pa fath o fframwaith yw hwn?	5
4.	Beth yw nodweddion dymunol fframwaith monitro tlodi?	7
5.	Y meysydd, y dangosyddion a'r mesurau	7
6.	Casgliadau	12
7.	Argymhellion	12
8.	Cyfeiriadau	15

1. Cyflwyniad

- 1.1 Mae gormod o blant yng Nghymru – yn wir, ar draws y Deyrnas Unedig – yn byw mewn tlodi. Y tu hwnt i'r annhegwch amlwg o blant yn gorfod tyfu i fyny heb ddigon, gwyddom fod tlodi plentyndod yn cael canlyniadau negyddol ar draws ystod o ganlyniadau yn ddiweddarach mewn bywyd. Felly, mae ymrwymiad Llywodraeth Cymru i fynd i'r afael â thlodi plant fel blaenoriaeth absoliwt i'w groesawu (Llywodraeth Cymru, 2024).
- 1.2 Mae fframwaith monitro'r Strategaeth Tlodi Plant yn amlddimensiwn o ran cyfeiriadedd ac yn eang ei gwmpas, gan ganolbwyntio'n bennaf, ond nid yn gyfan gwbl, ar ganlyniadau cymdeithasol sy'n ymwneud â thlodi plant, amddifadedd a llesiant. Gall symud y tu hwnt i ffocws unigryw ar un dangosydd, fel y dangosydd tlodi incwm cymharol, roi gwybodaeth fwy manwl am amgylchiadau plant yng Nghymru. Dyna'r dull a ddefnyddir yma.
- 1.3 Mae'r dangosyddion sydd wedi'u cynnig ar gyfer eu dewis yn cael eu cymryd yn bennaf o'r dangosyddion cenedlaethol, yn cyd-fynd â'r amcanion a'r blaenoriaethau a nodir yn y Strategaeth Tlodi Plant (y strategaeth), yn ymwneud, yn bennaf, â phrofiadau plant a phobl ifanc eu hunain, ac yn gyson â'r briff a osodwyd gan y Gweinidog Cyfiawnder Cymdeithasol a'r Prif Chwip ar y pryd, Jane Hutt AS. Bydd monitro cyfnodol yn erbyn y mesurau arfaethedig yn rhoi darlun llawn o dlodi a llesiant plant yng Nghymru a dylai gyfrannu at sicrhau bod sefyllfa plant mwyaf agored i niwed Cymru yn parhau i fod yn uchel ar yr agenda polisi.
- 1.4 Mae'r dangosyddion a ddewiswyd yn cynnwys eitemau sy'n ymwneud â phlant a phobl ifanc o bob oed, yn ogystal ag eitemau sy'n cofnodi canlyniadau ar adegau penodol yn ystod plentyndod. Yn gyffredinol, mae'r mesurau a dynnir o'r dangosyddion cenedlaethol nad ydynt yn ymwneud â phlentyndod yn ei gyfanrwydd, yn ymwneud â'i gamau diweddarach, neu'n wir â'r cyfnod o fod yn oedolyn ifanc. Mae hon yn risg sy'n deillio o'r ddibyniaeth ar ddata arolwg i boblogi'r fframwaith monitro – mae llawer o arolygon yn cael eu hanfon at ymatebwyr 16 oed a throsodd yn unig – ac eto mae'r ddibyniaeth hon yn angenrheidiol mewn llawer o achosion os yw'r ystadegau ar ba berfformiad sydd i'w gwerthuso fod yn gadarn. Mae ychwanegu mesurau o'r dangosyddion cenedlaethol ag eraill o'r Rhwydwaith

Ymchwil lechyd Mewn Ysgolion wedi caniatáu mwy o sylw ymhlith plant dan 16 oed. Mae hyn i'w groesawu.

- 1.5 Gan fod y mesurau'n ymwneud yn bennaf â thlodi a llesiant plant – hynny yw, â chanlyniadau cymdeithasol – mae'n debygol y bydd angen triongli â thystiolaeth ar effeithiolrwydd rhaglenni penodol, fel y cynlluniwyd, er mwyn dod i farn gyflawn am amgylchiadau'r plant yng Nghymru yn ogystal â llwyddiant mentrau Llywodraeth Cymru sy'n ceisio mynd i'r afael â thlodi plant. Mewn perthynas â'r fframwaith monitro yn benodol, mae cyfanswm y mesurau yn fawr a chan eu bod yn cael eu trin yn ymhlyg fel rhai sydd o'r un pwysigrwydd, mae'r darlun a ddarperir gan y mesurau hyn yn debygol o fod yn gymhleth, gyda meysydd cynnydd, stasis ac atchweliad i'w rhagweld mewn unrhyw gyfnod monitro penodol. Gall crynhoi perfformiad ar draws y portffolio amrywiol o fesurau fod yn heriol, ac mae'n debygol o fod yn agored i ddehongliad yn dibynnu ar y pwyslais ymhlyg y mae darllenwyr yn ei roi ar y gwahanol eitemau. Yn yr un modd, mae'r darlun amrywiol y gellir disgwyl i ddod o'r fframwaith hwn yn debygol o fod yn gryf o ran cyfeirio at feysydd lle mae cynnydd penodol wedi'i wneud ac wrth nodi meysydd lle mae angen ymdrechion pellach.

2. Cylch gwaith fy adolygiad a'r dull a gymerais

- 2.1 Wrth lansio Strategaeth Tlodi Plant 2024, nododd Jane Hutt AS, y Gweinidog Cyfiawnder Cymdeithasol ar y pryd, y byddai Llywodraeth Cymru, fel rhan o'r strategaeth, yn 'cynhyrchu fframwaith monitro ac effaith' a fyddai'n 'ystyried dangosyddion cenedlaethol llesiant Cymru' a byddai'n 'sicrhau bod ein hymdrechion ni'n cael eu canolbwyntio yn y manau y byddan nhw'n fwyaf effeithiol' (Cyfarfod Llawn y Senedd, 2024).
- 2.2 Rwyf wedi cael y dasg o 'ddarparu adolygiad arbenigol i Lywodraeth Cymru o, a chyngor annibynnol ar, addasrwydd fframwaith mesur drafft y Strategaeth Tlodi Plant, a ddatblygwyd yn fewnol gan ddadansoddwyr Llywodraeth Cymru.' Roedd y cylch gorchwyl ar gyfer y gwaith hwn yn cynnig y byddai'r dull o lunio fframwaith monitro yn dibynnu ar 'ddangosyddion sy'n bodoli eisoes, yn hytrach na dyfeisio set newydd' ac, yn benodol, tasg bwysig fyddai 'nodi pa rai o'r dangosyddion cenedlaethol presennol sy'n berthnasol a pha ddata sydd ar gael i adrodd yn erbyn

y data hwnnw ar gyfer plant mewn tlodi a phlant mewn tlodi â nodweddion gwarchoddedig'.

- 2.3 Mae'r Adolygiad Arbenigol hwn yn benllanw proses sydd wedi bod yn ailadroddol ac ymgynghorol yn hytrach nag yn cynnwys adolygiad o'r fframwaith monitro terfynol yn unig. Felly, mae rhai awgrymiadau a wneuthum ar gamau cynharach o'r broses hon – er enghraifft, ynghylch cynnwys naratif rhagarweiniol yn egluro pwrpas y fframwaith a sut y bydd yn gweithredu, ynghylch sicrhau bod y gyfres o eitemau yn weddol gytbwys ar draws cyfnodau plentyndod ac oedolion ifanc – bellach yn cael eu hadlewyrchu yn y fframwaith ei hun. Fodd bynnag, gwaith swyddogion Llywodraeth Cymru yw'r fframwaith monitro, a gafodd y dasg o'i lunio gan y Gweinidog ar y pryd. O ran amserlen y gwaith hwn, dechreuodd fy nghysylltiad ym mis Ionawr 2024 a rhannwyd fframwaith monitro drafft â mi ddiwedd mis Mawrth. Cyflwynais Adolygiad Cychwynnol o'r fframwaith drafft hwn yn hanner cyntaf mis Mai. Ymatebodd swyddogion Llywodraeth Cymru i'r Adolygiad Cychwynnol hwn yn ddiweddarach ym mis Mai gyda dogfen Myfyrio, a roddodd ymateb cynhwysfawr i'r sylwadau a'r argymhellion a wnaed yn fy Adolygiad Cychwynnol. Cynhaliwyd cyfarfodydd gyda'r Grŵp Cyfeirio Allanol ar y Strategaeth Tlodi Plant ar 21 Mawrth a 23 Mai ac mae cyfarfodydd gyda swyddogion Llywodraeth Cymru wedi'u cynnal yn ysbeidiol ers mis Ionawr eleni. Mae ymrwymiad ac ymroddiad swyddogion wedi gwneud argraff arnaf wrth iddynt ddylunio'r fframwaith hwn a'u parodrwydd i roi ystyriaeth ddwys i wahanol safbwyntiau – nid yn unig fy safbwyntiau i, ond hefyd rhai eu Grŵp Cyfeirio Allanol – ynglŷn â'i ddyluniad.
- 2.4 Mae fframwaith mesur a monitro yn cyfuno meysydd sy'n ymwneud ag arfer gorau gwyddorau cymdeithasol ag ystyriaethau sy'n fwy syml yn wleidyddol. Isod, amlinellaf gyfres o egwyddorion sydd wedi cynorthwyo fy adolygiad ac yr wyf yn eu hystyried yn elfennau o arfer da, sy'n ymwneud â'r cyntaf o'r ddau. Goblygiad yr olaf o'r ddau yw nad oes un ffordd orau o ddylunio fframwaith monitro a bod rheidrwydd gwleidyddol, gan gynnwys barn grwpiau defnyddwyr, yn chwarae rhan gyfiawn – ac yn wir un bwysig.

3. Beth yw pwrpas y fframwaith? Pa fath o fframwaith yw hwn?

- 3.1 Mae'r fframwaith yn ceisio cyfrannu at fonitro effeithiolrwydd Strategaeth Tlodi Plant 2024 Llywodraeth Cymru. Yn ogystal â'r fframwaith hwn sy'n seiliedig ar ganlyniadau cymdeithasol, bydd hefyd adroddiad cynnydd polisi 'monitro allbynnau yn erbyn y 5 amcan, 5 blaenoriaeth a 19 ymrwymiad yn y strategaeth' a 'thystiolaeth gan blant, pobl ifanc a theuluoedd sydd â phrofiad bywyd o dlodi' (Llywodraeth Cymru, 2024, t. 2) hefyd yn cael ei ystyried wrth werthuso effaith y strategaeth yn ei chyfanrwydd. Felly, bydd y gwersi sy'n deillio o'r fframwaith hwn yn cael eu triongli â thystiolaeth o'r ffynonellau eraill hyn wrth ddod i farn am lwyddiant y strategaeth a sut y dylai'r ymateb polisi ddatblygu.
- 3.2 Mae'r meysydd a ddewiswyd yn y fframwaith drafft hwn yn cyd-fynd ag amcanion a nodir yn Strategaeth Tlodi Plant 2024. Mae'r dangosyddion a'r mesurau a gynigir yn ymwneud yn bennaf â chanlyniadau fel y maent yn ymwneud â phlant, er bod rhai mesurau oedolion hefyd. Mae hyn yn rhoi natur hybrid i'r set lawn, er mai canlyniadau plant yw'r prif ffocws.
- 3.3 Manteision dull fframwaith sy'n seiliedig ar ganlyniadau cymdeithasol, yn fy marn i, yw (i) bod llesiant plant yn wirioneddol amlddimensiwn ac y gall dull amlddimensiwn gyfleu y realiti hwn yn well nag unrhyw ddangosydd unigol (Hick, 2014b); (ii) ei fod yn cynrychioli gwelliant ar ddibyniaeth unigryw ar, yn enwedig, ddangosydd incwm cymharol, sydd yn fwyaf amlwg yn sensitif i bolisiau treth a throsglwyddo nad ydynt, ar y cyfan, o fewn cylch gorchwyl pwerau Llywodraeth Cymru. Un anfantais yw bod pellter posibl rhwng gweithgareddau Llywodraeth Cymru a'r canlyniadau hyn oherwydd bod ganddynt amrywiaeth o ddylanwadau a phenderfynyddion ar wahân i weithgareddau Llywodraeth Cymru. Mae canolbwyntio ar ganlyniadau o'r fath, yn hytrach na monitro cynnydd yn seiliedig ar allbynnau polisi, felly yn golygu rhywfaint o risg. Un risg o'r fath yw y gallai dirywiad mewn perfformiad ar y canlyniadau hyn arwain at feirniadaeth ddiangen a digyfiawnhad o Lywodraeth Cymru, gan y gallai hyn fod o ganlyniad i dueddiadau economaidd-gymdeithasol ehangach ac nid unrhyw fethiant ym mentrau Llywodraeth Cymru. Gall hefyd olygu y gall mentrau Llywodraeth Cymru 'lwyddo' yn erbyn amcanion rhaglenni unigol, ond efallai na fydd hyn yn ganfyddadwy oherwydd bod y canlyniadau'n cyfleu cyfanwaith ehangach a

mwy cyflawn. I'r graddau hyn, bydd triongli trwy fonitro allbynnau polisi (a phrofiad bywyd), fel y cynigir, yn bwysig er mwyn darparu asesiad cyflawn o amgylchiadau plant a pherfformiad mentrau Llywodraeth Cymru.

- 3.4 Mae'r fframwaith monitro yn ystyried nifer gymharol fawr o fesurau unigol. Er enghraifft, mae mwy o fesurau wedi'u cynnwys yn y fframwaith drafft nag yn y strategaethau tlodi plant a aseswyd gan Peter Kenway a'i gydweithwyr yn eu hadolygiad ar ran Canolfan Polisi Cyhoeddus Cymru (Kenway et al., 2022). Mae nifer uwch nag a gynhwyswyd yn nhargedau Deddf Tlodi Plant y DU neu yn Strategaeth Gwrthdlodi Genedlaethol Iwerddon, a oedd â tharged cyffredinol neu gyflawn o dlodi ariannol a thargedau atodol yn ymwneud â diweithdra, anfantais addysgol, anfantais drefol a thlodi gwledig (Layte, Nolan a Whelan, 2000). Nid yw hynny'n golygu bod fframwaith monitro mwy eang yn unigryw: mae Nodau Datblygu Cynaliadwy'r Cenhedloedd Unedig yn enghraifft o fframwaith â nifer fawr o nodau (17) a thargedau (169). Ond serch hynny, mae'n nodweddiadol a bydd yn dylanwadu ar sut mae'r fframwaith yn gweithredu'n ymarferol.
- 3.5 Mae strwythurau â mwy o ddimensiynau yn cynrychioli'r profiad o'r amrywiaeth o fathau o dlodi plant a llesiant plant yn well, ond ar draul mwy o gymhlethdod (Hick, 2016). Gellir disgwyl i berfformiad amrywio ar draws y gwahanol ddangosyddion hyn, a bydd yn dasg bwysig, ac un heriol o bosib, wrth gyfuno'r gwersi o'r dangosyddion hyn.

4. Beth yw nodweddion dymunol fframwaith monitro tlodi?

4.1 Wrth ystyried yr adolygiad hwn, rwyf wedi ystyried y nodweddion dymunol canlynol wrth fesur tlodi plant:

4.1.1 Dylai'r mesurau a ddewisir 'nodi hanfod y broblem a chael dehongliad normadol clir a derbyniol' (Atkinson et al., 2002, t. 24).

4.1.2 Pan fo mesurau'n ymwneud â thlodi neu lesiant plant, dylent gyfrif plant unigol (yn hytrach nag aelwydydd â phlant), yn unol â chadw unigolion fel yr uned ddadansoddi (Förster a Mira d'Ercole, 2012, t. 31).

4.1.3 Lle bo'n briodol ac yn ymarferol, dylai'r eitemau roi sylw dyledus i farn plant a/neu dylai'r eitemau fod yn ymwneud yn benodol â phlant (Main a Bradshaw, 2012).

4.1.4 Lle dewisir dangosyddion amlddimensiwn, dylai pob eitem ddarparu gwybodaeth na chynigir gan eitem arall. I'r graddau hynny, ni ddylai unrhyw fesur fod yn ddiangen.

4.1.5 Dylai'r dangosyddion gyfeirio at ystod oedran lawn o blant a phobl ifanc. Yn ddelfrydol, byddai hyn yn cyfeirio at bob mesur unigol, ond dylai'r gyfres, o'i chymryd gyda'i gilydd, o leiaf ddarparu'r sylw hwn.

4.2 Yn olaf, er na ellir nodi hyn mor daclus, fel rheol gyffredinol:

4.2.1 Dylai manyleb dangosydd gymryd gofal priodol o ran nodi grwpiau ffocws a chyfeirio. Yn ogystal, dylid ystyried yn ofalus a yw dangosyddion yn cael eu nodi fel cyfrannau neu fylchau, ac ati. Mae'n hawdd anwybyddu pwysigrwydd y penderfyniadau hyn, ac eto gallant ddylanwadu ar natur y canlyniadau a ddarperir gan unrhyw fframwaith monitro ac felly'r negeseuon a ddarperir i lunwyr polisi.

5. Y meysydd, y dangosyddion a'r mesurau

5.1 Mae'r fframwaith yn cynnwys pedwar maes. Mae maes safonau byw yn arbennig o bwysig ac yn cyfleu'r profiad o dlodi plant yn fwyaf uniongyrchol. Mae'r meysydd

addysg, sgiliau a chyflogaeth, llesiant a chymunedau cynhwysol yn amlwg yn ymwneud ag amcanion a nodir yn y Strategaeth Tlodi Plant. Mae pob un o'r pedwar maes hyn yn bwysig ac maent yn wahanol. Mae'r rhan fwyaf o'r mesurau isod yn ymwneud â phlant a phobl ifanc eu hunain, er bod rhai yn ymwneud â chanlyniadau i oedolion. Mae hyn yn amrywio rhywfaint ar draws meysydd; mae'r meysydd safon byw a llesiant yn cael eu cwmpasu'n well mewn perthynas â phlant a phobl ifanc yn uniongyrchol (gyda mesurau 7/7 a 5/7 yn y drefn honno) na sydd gan y meysydd addysg, sgiliau a chyflogaeth a chymunedau cynhwysol (2/4 ac 1/4 yn y drefn honno). Byddwn i'n ystyried bod y mesurau hynny sy'n ymwneud yn uniongyrchol â phlant a phobl ifanc yn arbennig o bwysig ar gyfer gwerthuso effeithiolrwydd strategaeth tlodi plant. Trafodaf y dangosyddion a'r mesurau hyn yn eu tro.

Maes 1. Safonau byw

- 5.2 Dangosydd cenedlaethol 18 (tlodi incwm cymharol). Mae hwn yn ddangosydd angenrheidiol. Mae'r ffaith bod y mesurau arfaethedig ar sail ar ôl costau tai yn golygu y bydd hyn yn sensitif i amrywiadau o ran fforddiadwyedd tai dros amser a lle, sy'n ddymunol. Mewn perthynas â'r dangosydd hwn:
- 5.2.1 Mae pum mesur tlodi incwm cymharol. Mae'n ddefnyddiol bod y prif fesur wedi'i gynnwys cyn pedwar sydd wedi'u dadgyfuno (yn ôl nifer y plant, math o deulu, statws economaidd ac anabledd, yn y drefn honno).
- 5.3 Dangosydd cenedlaethol 19 (amddifadedd materol). Mae hwn yn ddangosydd dymunol iawn i'w gynnwys yn y fframwaith monitro, ac rwy'n ystyried bod hwn a'r mesurau tlodi cymharol yn arbennig o bwysig o ran monitro tlodi materol, yn enwedig gan fod y ddau yn nodi plant ar draws yr ystod oedran lawn. Dangoswyd bod mesurau amddifadedd materol yn llwyddiannus iawn o ran nodi aelwydydd sydd mewn perygl o amrywiaeth o fathau o amddifadedd lluosog (Hick, 2014a).
- 5.4 Mesur brechwast: Gallaf weld perthnasedd nodi i ba raddau nad yw plant ysgol uwchradd yn bwyta brechwast o ystyried ymdrechion polisi Llywodraeth Cymru yma mewn perthynas â phlant ysgol gynradd ac, ar lefel y DU, pryderon am ansicrwydd bwyd cynyddol (Llywodraeth Cymru, 2022).

Maes 2. Addysg, sgiliau a chyflogaeth

- 5.5 Dangosydd cenedlaethol 7 (canlyniadau TGAU). Gallaf weld gwerth cynnwys y mesur hwn a'i berthnasedd clir mewn perthynas â'r Strategaeth Tlodi Plant. Mae'n ddymunol nodi'r dangosyddion cenedlaethol yn nhermau'r ddau gyfanswm (h.y. ar gyfer pob plentyn yn y garfan) yn ogystal â'r bwch rhwng y rhai sy'n derbyn prydau ysgol am ddim a'r rhai nad ydynt yn cael prydau ysgol am ddim.
- 5.6 Dangosydd cenedlaethol 16 (cyflogaeth Cyflog Byw) a dangosydd cenedlaethol 17 (bylchau cyflog): Rhaid nodi bod y dangosyddion hyn yn wahanol iawn i lawer o'r lleill gan nad ydynt yn ymwneud yn uniongyrchol â phlant neu bobl ifanc yn benodol ac felly maent y tu hwnt i'r egwyddorion a amlinellais yn adran 4. Mae'r mesur sy'n ymwneud â chyflogaeth cyflog byw yn fy nharo i fel un, sydd o bosibl yn fwy perthnasol i'r fframwaith hwn na'r un sy'n ymwneud â bylchau cyflog, er nad wyf yn amau pwysigrwydd yr ail mewn termau cynhenid. Gellir cyfiawnhau'r eitemau hyn ar y sail eu bod yn cynrychioli, neu'n gyson â'r llwybrau allan o dlodi a ragwelir gan Amcan 2 y Strategaeth Tlodi Plant. Fodd bynnag, mae cynnwys y dangosyddion hyn yn cyflwyno elfen hybrid i'r fframwaith, sydd bellach yn symud y tu hwnt i fframwaith tlodi ac amddifadedd plant yn seiliedig ar ganlyniadau yn unig. Yn fy Adolygiad Cychwynnol o'r fframwaith drafft, awgrymais naratif yn esbonio'r gwyrriad hwn oddi wrth ffocws plentyn-benodol ac rwy'n falch bod hyn bellach wedi'i gynnwys.
- 5.6.1 O ran dangosydd cenedlaethol 17 yn benodol, rwy'n falch o weld bod manyleb y mesur hwn yn canolbwyntio ar y ddau gyfanswm yn ogystal â bylchau (oherwydd fel rheol gyffredinol nid ydym am i fylchau gael eu cau trwy berfformiad yn gwaethygu ar gyfer grwpiau cymharol freintiedig). Bydd angen addasiad ar gyfer chwyddiant er mwyn cymharu cyfansymiau dros amser.
- 5.7 Dangosydd Cenedlaethol 22 (cyfraddau gweithgaredd/diffyg gweithgaredd ar gyfer pobl ifanc). Mae hwn yn fesur i'w groesawu.

Maes 3. Llesiant

- 5.8 Dangosydd cenedlaethol 1 (pwysau geni isel) – Mantais y mesur hwn yw ei fod yn nodi canlyniad sy'n berthnasol i'r plentyn ar ddechrau bywyd. Mae gan hyn werth

ynddo'i hun ac mae hefyd yn darparu rhywfaint o gydbwysedd yn erbyn dangosyddion sydd weithiau'n gwyro tuag at flynyddoedd hŷn plentyndod.

- 5.9 Dangosydd cenedlaethol 29 (sgôr llesiant cymedrig). Gallaf weld yn glir werth cynnwys dangosydd o'r math hwn, er y byddai'n gwneud synnwyr i mi i gyfyngu ffocws y mesur hwn i oedolion ifanc rhwng 16 a 24 oed. Mae'r mesurau dilynol ar anawsterau emosiynol a boddhad bywyd yn nodi gwybodaeth debyg, os nad yr union yr un fath, ar gyfer carfannau iau o blant. Mae hyn i'w groesawu.
- 5.10 Dangosydd cenedlaethol 38 (canran y bobl sy'n cymryd rhan mewn gweithgareddau chwaraeon). Gallaf weld perthnasedd y dangosydd hwn. Nid yw'r tri mesur a restrir yn union yr un fath â dangosydd cenedlaethol 38 ond maent, yn fras, yn gyson ag ef. Gan nad oes unrhyw ffynonellau data, nid wyf wedi gallu gwirio manylebau'r newidynnau hyn, a dylid darllen fy sylwadau penodol yn yr un modd:
- 5.10.1 O ran y mesur cyntaf sy'n ymddangos o dan y dangosydd hwn (cymryd rhan mewn gweithgaredd wedi'i drefnu), pe bai'r data'n caniatáu hynny, byddai'n well cyfrif plant yn hytrach na rhieni – felly, 'canran y plant sy'n byw mewn teuluoedd difreintiedig materol sy'n cymryd rhan yn rheolaidd mewn gweithgarwch wedi'i drefnu ...' (yn gyson â chyfrif plant, yn unol â pharagraff 4.1.2, uchod).
- 5.10.2 Nid yw'r defnydd o amddifadedd materol fel newidyn dethol yn ddelfrydol gan y gallai hyn ostwng yn sylweddol dros amser, yn enwedig yn ystod cyfnodau o dwf economaidd. Rwy'n derbyn bod awydd yma i ganolbwyntio ar lesiant ar gyfer plant sy'n profi caledi economaidd yn benodol, a bod cyfyngiadau data gwirioneddol a dilys, ond efallai y bydd angen gofal wrth ddehongli mesurau a nodir yn y modd hwn mewn adroddiadau diweddarach os bydd y brif gyfradd amddifadedd materol yn newid, gan y gallai'r mesur hwn, yn y pen draw, nodi newidiadau yn lefelau gweithgarwch grŵp sydd ei hun yn newid – o bosibl yn mynd yn llai – dros amser. Yn ddelfrydol, byddai'n well i'r mesur hwn ddewis ar sail amddifadedd economaidd gan ddefnyddio sampl sylfaen sefydlog, fwy neu lai. I'r graddau hynny, fy newis i fyddai cyfyngu sylw, mewn trefn ddisgynnol neu ddewisol: i'r un neu ddau (yn gyfwerthedig) o'r cwintelau incwm isaf, yna statws tlodi incwm, yna statws amddifadedd materol. Rwy'n derbyn efallai na fydd hyn yn bosibl oherwydd cyfyngiadau data, ond efallai y bydd angen gofal wrth

ddehongli mesurau a nodir yn y modd hwn os bydd cyfran y teuluoedd yn newid yn sylweddol. *Sylwer: Gallai'r penderfyniad i dderbyn argymhelliad 4 (paragraff 7.4) sy'n diwygio'r newidyn dethol o 'mewn amddifadedd materol' i 'drwy amddifadedd materol' helpu yma gan y bydd y dangosydd hwn bellach yn cael ei adrodd ar deuluoedd sy'n profi amddifadedd materol a'r rhai nad ydynt.*

- 5.10.3 Yn fwy cyffredinol, nid wyf yn sicr pam mae'r dangosydd gweithgaredd cyntaf yn cael ei fesur ar gyfer *rhieni* sydd *mewn* amddifadedd materol, tra bod yr ail a'r trydydd yn nodi *plant* ac yn cyflwyno hyn yn *ôl* cyfoeth teuluol. Os caiff hyn ei orfodi gan gyfyngiadau data, byddai'n dda nodi hyn, gan ei fod yn anghysondeb.

Maes 4. Cymunedau cynhwysol

- 5.11 Dangosydd cenedlaethol 24 (boddhad gyda mynediad at gyfleusterau a gwasanaethau). Mae hwn yn brocsi weddol anuniongyrchol o ganlyniad plentyn. Gellid dweud ei fod yn ymwneud â 'theuluoedd', yn unol â ffocws y Strategaeth Tlodi Plant ar 'blant, pobl ifanc a'u teuluoedd', ond nid yw wedi'i gyfyngu'n benodol yn y modd hwn ac mae'n debygol o gael ei ddylanwadu gan ffactorau nad ydynt yn gysylltiedig â'r Strategaeth Tlodi Plant (e.e. boddhad gyda pherfformiad gwasanaethau fel sy'n ymwneud â phobl gymharol hŷn, a all weithiau fod yn cystadlu am adnoddau â'r rhai ar gyfer plant a phobl ifanc). Mae'r ail fesur yn ymddangos yn fwy priodol gan ei fod yn ymwneud yn fwy uniongyrchol â phrofiadau plant, gan gynnwys plant iau.
- 5.12 Dangosydd cenedlaethol 27 (perthyn): Unwaith eto, byddwn yn ystyried hwn yn fesur cymharol anuniongyrchol o ganlyniad plentyn, yn enwedig pan nad yw wedi'i gyfyngu i grŵp mwy penodol (e.e. plant a phobl ifanc hŷn, rhwng 16 a 24 oed). Felly, byddwn yn tueddu i roi llai o bwyslais ar y dangosyddion anuniongyrchol hyn ac, yn sicr, gwelliannau ar yr eitemau hyn, ond byddai dirywiad ar yr eitemau sy'n canolbwyntio'n fwy uniongyrchol ar y plentyn, yn fy marn i, yn awgrymu perfformiad sy'n dirywio yn gyffredinol.
- 5.13 Mae cynnwys dangosydd derbyn ar gyfer plant ysgol gynradd yn gadarnhaol, yn enwedig gan ei fod yn darparu dangosydd arall yn ymwneud â phlant o dan 16 oed. Croesawir y ffaith bod hwn wedi'i nodi'n benodol fel y prif fesur yn ogystal â'i ddadgyfuno gan gyfoeth teuluol.

6. Casgliadau

6.1 Bydd fframwaith monitro'r Strategaeth Tlodi Plant yn darparu'r sail ar gyfer gwerthusiad cyfoethog o ganlyniadau cymdeithasol i blant, pobl ifanc a'u teuluoedd. Mae ganddo lawer o briodweddau dymunol: mae'n amlddimensiwn o ran cyfeiriadedd, ond mae'n cynnwys mesur tlodi incwm cymharol ac yn rhoi amlygrwydd iddo hefyd, mesur angenrheidiol, yn fy marn i, ar gyfer unrhyw strategaeth tlodi plant; mae'n eang, gan nodi perfformiad ar draws sawl maes a dangosydd; mae'n cyflawni cydbwysedd da rhwng eitemau sy'n ymwneud â phob plentyn ac eitemau eraill, sy'n nodi profiadau ar gyfnodau penodol o blentyndod; mae'n cymryd plant eu hunain fel yr uned ddadansoddi yn y rhan fwyaf o achosion, ac nid teuluoedd neu, yn wir, eu rhieni. Fel y nodais, mae'n fframwaith cymhleth a bydd crynhoi perfformiad ar draws y mesurau amrywiol yn heriol. Mae natur hybrid y fframwaith, sy'n canolbwyntio'n bennaf ar ganlyniadau cymdeithasol fel y maent yn ymwneud â phlant a phobl ifanc, ond mewn rhai achosion yn ymwneud â chanlyniadau oedolion, yn cynnwys mesurau y gellir dweud eu bod yn ymwneud â'r *Strategaeth* Tlodi Plant, ond nid â thlodi plant fel y cyfryw. Rwy'n derbyn hyn fel egwyddor gyffredinol, er fy mod yn llai argyhoeddedig o ran rhai achosion penodol – rwy'n meddwl yn arbennig yma am y mesur boddhad â mynediad at wasanaethau ymhlith oedolion, ond efallai un neu ddwy o eitemau eraill hefyd – ac, yn gyffredinol, byddwn yn tueddu i roi llai o bwyslais ar yr eitemau hyn wrth ddehongli perfformiad cyffredinol, oherwydd does bosib y dylai gwerthuso effeithiolrwydd Strategaeth Tlodi Plant roi pwyslais penodol ar fesurau sy'n cyfleu yn uniongyrchol nifer yr achosion a'r profiad o dlodi plant. Ar y cyfan, o'i ystyried ochr yn ochr â thystiolaeth o brofiad bywyd pobl ifanc a dadansoddiad o allbynnau polisi, bydd y fframwaith hwn yn offeryn defnyddiol iawn ar gyfer gwerthuso effeithiolrwydd gweithgareddau Llywodraeth Cymru fel y maent yn ymwneud â Strategaeth Tlodi Plant Cymru 2024.

7. Argymhellion¹

¹ Mae'r pum argymhelliad a wnaed yn fy adolygiad o 17 Gorffennaf 2024 wedi'u rhestru yma. Rwyf hefyd yn nodi y camau a gymerwyd ar ôl yr adolygiad hwn ac a ymgorfforwyd yn y fframwaith monitro terfynol.

- 7.1 Argymhelliad 1. Mewn rhai achosion, mae mesurau yn nodi profiad yr *holl* blant a phobl ifanc (hynny yw, maen nhw'n prif fesurau), tra bod eraill yn nodi bod mesur penodol yn cael ei ddadgyfuno ar gyfer grwpiau penodol. Gallai fod mwy o gysondeb o ran cynnwys prif fesurau a'u dadgyfuno. Er enghraifft, mewn rhai achosion dim ond prif fesur sydd (e.e. mewn perthynas ag amddifadedd materol). Mewn achosion eraill, mae prif fesur a dadgyfuniad o hwn (e.e. mewn perthynas â thlodi incwm cymharol). O ran achosion eraill (e.e. pwysau geni isel) mae mesurau yn nodi profiad dadgyfuno ar gyfer grwpiau penodol, ond nid yw'r prif fesur ei hun (yn yr achos hwn, canran y genedigaethau byw â phwysau geni isel) wedi'i gynnwys. Fel rheol gyffredinol, a heb gyfiawnhad cymhellol dros ei eithrio, byddai'n dda cynnwys y prif fesur pryd bynnag y bydd mesur wedi'i ddadgyfuno yn cael ei gynnwys. *Sylwer: derbyniwyd yr argymhelliad hwn a lle cynhwysir mesurau dadgyfunedig, bydd y prif fesur perthnasol hefyd yn cael ei adrodd.*
- 7.2 Argymhelliad 2. Nid wyf hefyd yn sicr ynghylch statws y grwpiau a fydd yn cael eu defnyddio wrth ddadgyfuno'r prif fesurau wrth iddynt amrywio ar draws eitemau. Os oes grwpiau *penodol* sy'n ganolog i'r strategaeth, fel rhai sy'n unol â'r 'amgylchiadau a chefnidir' a grybwyllwyd yn y cyflwyniad i'r fframwaith, yna byddai'n dda gwneud y rhain yn glir. Os nad ydynt, a grwpiau dangosol yn unig yw'r rhain, yna mae'n codi'r cwestiwn pam eu bod wedi'u dyrchafu i statws mesur ffurfiol. Nid yw'n ymwneud cymaint â bod gennyf gwestiynau am y grwpiau sydd wedi'u cynnwys mewn unrhyw fesur penodol, ond gellid esbonio'n gliriach y rhesymeg dros gynnwys y grwpiau a ddewiswyd, a pham mae'r rhain yn amrywio ar draws mesurau. *Sylwer: mae fersiwn terfynol y fframwaith bellach yn mynegi awydd i ddadgyfuno'r dangosyddion perthnasol, lle bo modd, fesul grwpiau â nodweddion gwarchoddedig. Rwy'n derbyn y gall fod heriau wrth wneud hyn oherwydd cyfyngiadau data, ond mae cynnwys datganiad sy'n amlinellu sut mae'r fframwaith yn gwyro oddi ar y ddelfryd yn ddefnyddiol.*
- 7.3 Argymhelliad 3. Mae'r naratif rhagarweiniol yn ddefnyddiol iawn, ond gallai fod yn gliriach o ran hybridiaeth. Er enghraifft, nodir mai maen prawf dethol yw bod mesurau 'yn cynrychioli mesur canlyniad ar gyfer plant a phobl ifanc', ond nid wyf yn siŵr a fyddai'r mesurau sy'n canolbwyntio ar oedolion yn gymwys o dan y diffiniad hwn i'w cynnwys. Gallai 'cynrychioli neu ymwneud...' fod yn fwy cywir, er bod hyn yn

codi'r cwestiwn o'r hyn y mae'r eitemau oedolion yn ymwneud *ag ef*, efallai y gallai hyn gael ei drafod ychydig yn fwy penodol. Yn ystod ein sgysiau, un o'r cyfyngiadau ar gynnwys mesurau ychwanegol oedd argaeledd data. Ar adegau, roedd y cyfyngiadau hyn yn ymwneud â data na fyddai, efallai, yn cael ei gasglu o *gwbl*, ond ar adegau eraill, efallai, y byddai data'n cael ei gasglu ar ffurf nad yw'n bodloni'r gofynion ystadegol y mae Llywodraeth Cymru'n gweithredu'n unol â nhw. Roeddwn yn tybio a ddylai'r pwynt ar frig paragraff 2.11 ddarllen '*... data cadarn, sydd ar gael yn arferol.*' *Sylwer: Addaswyd y naratif rhagarweiniol mewn ymateb i'r pwyntiau hyn.*

- 7.4 Argymhelliad 4. Yn gyffredinol, fy marn i yw bod dadgyfuno yn ôl statws amddifadedd materol yn well nag un sy'n canolbwyntio *ar* y rheiny sydd mewn amddifadedd materol yn unig, yn enwedig o ystyried y pryderon a nodais am ddibyniaeth ar amddifadedd materol fel grŵp dethol, yr wyf yn sylweddoli y gallai fod yn anochel os yw rhyw fath o ddethol/dadgyfuno economaidd i'w roi ar waith. Byddai dadgyfuno yn ôl statws amddifadedd materol yn hwyluso dehongliad mewn ffordd a allai fod yn ddefnyddiol. *Sylwer: mae'r argymhelliad hwn wedi'i ymgorffori yn fersiwn terfynol y fframwaith monitro.*
- 7.5 Argymhelliad 5. Byddwn yn ystyried cyfyngu mesur 2 ym maes llesiant (sgôr llesiant meddwl cymedrig ar gyfer oedolion 16 oed neu drosodd yn ôl amddifadedd materol) i bobl ifanc 16-24 oed yn unig. Efallai fod dadl dros ystyried hyn mewn perthynas â mesur 3 ym maes cymunedau cynhwysol hefyd (y mesur 'perthyn'), er bod yr achos yma efallai ychydig yn llai cymhellol, o ystyried ffocws perthynol penodol y mesur. *Sylwer: Derbyniwyd yr argymhelliad hwn mewn egwyddor, ond gyda'r cafeat y gallai fod yn heriol ei roi ar waith yn ymarferol oherwydd meintiau sampl isel mewn ffynonellau data allweddol, yn enwedig o ystyried yr awydd i ganolbwyntio ar bobl ifanc a'r rhai mewn amddifadedd materol. I'r graddau y mae'r ffocws yn parhau ar bob oedolyn mewn adroddiadau dilynol, byddai naratif yn esbonio'r cysylltiad rhwng y canlyniadau hyn i oedolion a darpariaethau perthnasol yn y Strategaeth Tlodi Plant a/neu â chanlyniadau plant o gymorth.*

8. Cyfeiriadau

- Atkinson, A. B., B. Cantillon, E. Marlier a B. Nolan (2002) *Social Indicators: The EU and Social Inclusion*, Rhydychen: Gwasg Prifysgol Rhydychen. t.24.
- Förster, M. a Mira d'Ercole, M. (2012) 'The OECD approach to measuring income distribution and poverty', yn Besharov, D.J. a Couch, K.A. (gol), *Counting the Poor: new thinking about European poverty measures and lessons for the United States*, Rhydychen, Gwasg Prifysgol Rhydychen. t. 31.
- Hick, R. (2014a) On 'consistent' poverty. *Social indicators research*. 118, 1087-1102. Nolan, B., a Whelan, C. T. (2011). *Poverty and deprivation in Europe*. Gwasg Prifysgol Rhydychen.
- Hick, R. (2014b) Poverty as capability deprivation: Conceptualising and measuring poverty in contemporary Europe. *European Journal of Sociology*, 55(3), 295-323.
- Hick, R. (2016) 'Material poverty and multiple deprivation in Britain: The distinctiveness of multidimensional assessment', *Journal of Public Policy*, 36, 2, tt. 277-308.
- Kenway, P, Ayrton, C., Chandran, C., a Tortajada, I. (2022) 'Beth sy'n gwneud strategaeth gwrthdodi yn effeithiol?', Caerdydd, Canolfan Polisi Cyhoeddus Cymru.
- Layte, R., Nolan, B., a Whelan, C. T. (2000) Targeting poverty: lessons from monitoring Ireland's national anti-poverty strategy. *Journal of Social Policy*, 29(4), 553-575.
- Main, G., a Bradshaw, J. (2012) A child material deprivation index. *Child Indicators Research*, 5, 503-521.
- Cyfarfod Llawn y Senedd (2024) [Datganiad gan y Gweinidog Cyfiawnder Cymdeithasol a'r Prif Chwip: Strategaeth Tlodi Plant Cymru](#), 23 Ionawr. Ar gael yn: [Cyfarfod Llawn 23/01/2024 - Senedd Cymru \(cynulliad.cymru\)](#) [Cyrchwyd 1 Mawrth 2024]
- Llywodraeth Cymru (2022) *Prydau Ysgol Am Ddim i holl blant Ysgolion Cynradd (UPFSM)*. Ar gael yn: [Prydau Ysgol Am Ddim i holl blant Ysgolion Cynradd \(UPFSM\) | LLYW.CYMRU](#)
- Llywodraeth Cymru (2024) *Strategaeth Tlodi Plant Cymru 2024*. Ar gael yn: [Strategaeth Tlodi Plant Cymru 2024 | LLYW.CYMRU](#)